

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

**2007 Rhif 1104 (Cy.116)**

**Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU**

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau  
Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007**

*Wedi'u gwneud* - - 27 Mawrth 2007  
*Yn dod i rym* - - 1 Ebrill 2007

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 130, 131, a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**RHAN 1**

**CYFFREDINOL A CHYFLWYNO**

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

**Dehongli**

2. Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr “aelwyd” (“household”) yw —

(1) Ddeddf gydgrynhoi yw Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42) (“Deddf 2006”). Mae'n dirymu ac yn ailddeddfu yn ei chyfanrwydd Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (p.49) (“Deddf 1977”) gan ymgorffori rhai o ddarpariaethau Ddeddf y GIG a Gofal Cymunedol 1990, Ddeddf Iechyd 1999, Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001, Ddeddf Diwygio'r GIG a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 a Ddeddf Iechyd 2006.

Mae adrannau 130 a 131 o Ddeddf 2006 yn cyfateb i adran 83A o Ddeddf 1977.

Mae adran 203(9) a (10) o Ddeddf 2006 yn cyfateb i adran 126(4) o Ddeddf 1977.

Trinnir y cyfeiriadau at “Weinidogion Cymru” yn Neddf 2006 fel pe baent yn cyfeirio at Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel y'i cyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38) yn unol â'r addasiadau a geir yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2006 (p.43), adran 5 ac Atodlen 3, paragraff 10.

Bydd cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i swyddogaethau yn trosglwyddo I Weinidogion Cymru yn syth ar ôl diwedd yr “initial period” (fel y'i diffinnir yn adran 161(5) yn unol ag adran 162 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

- (a) grŵp o bobl a chanddynt gyfeiriad cyffredin yn unig neu'n brif breswylfa ac sydd naill ai'n rhannu un pryd y dydd neu'n rhannu'r llety byw yn y breswylfa honno; neu
- (b) unig neu brif breswylfa person sengl nad yw'n rhannu nac un pryd y dydd na'r llety byw yn y breswylfa honno â pherson arall;

mae i “anghydfod masnach” yr ystyr a roddir i “trade dispute” yn adran 35(1) o Ddeddf Ceisio Gwaith 1995;

mae i “cartref gofal” yr ystyr a roddir i “care home” yn adran 3 o Ddeddf Safonau Gofal 2000(2);

ystyr “ceisydd” (“claimant”) yw person sy'n gwneud cais am beidio â thalu ffi, taliad neu ad-daliad yn unol â rheoliad 7 neu 10;

ystyr “contract blwydd-dal” (“annuity contract”) yw contract sy'n darparu ar gyfer taliadau bob hyn a hyn gan ddechrau ar ddyddiad sydd wedi'i ddatgan neu ddyddiad amodol ac sy'n parhau am gyfnod penodedig neu drwy gydol oes y blwydd-dal;

mae i “contract GIG” yr ystyr a roddir i “NHS contract” yn adran 7(1) o'r Ddeddf;

rhaid i “credyd cynilion credyd pensiwn” (“pension credit savings credit”) gael ei ddehongli yn unol ag adrannau 1 a 3 o Ddeddf Credyd Pensiwn y Wladwriaeth 2002(3);

ystyr “credyd treth gwaith” (“working tax credit”) yw credyd treth gwaith o dan Ddeddf Credydau Treth 2002(4);

ystyr “credyd treth plentyn” (“child tax credit”) yw credyd treth plant o dan adran 8 o Ddeddf Credydau Treth 2002;

mae i “cwrs o driniaeth” yr ystyr a roddir i “course of treatment” yn rheoliad 2(1) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006 (1);

mae i “cwrs o driniaeth frys” yr ystyr a roddir i “urgent course of treatment” yn rheoliad 2(1) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006;

ystyr “cyfradd lawn” (“full rate”) yw'r gyfradd a bennwyd o dan adran 26(2) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948;

ystyr “cyfradd safonol” (“standard rate”) yw'r gyfradd safonol a bennwyd yn unol ag adran 22(2) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948;

ystyr “cymhorthdal incwm” (“income support”) yw cymhorthdal incwm o dan Ran VII o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992, ac mae'n cynnwys ychwanegiad treuliau personol, ychwanegiad trosiannol arbennig ac ychwanegiad trosiannol fel y'u diffinnir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Cymhorthdal Incwm (Trosiannol) 1987(5);

mae i “cynllun pensiwn galwedigaethol” yr ystyr a roddir i “occupational pension scheme” gan adran 1 o Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993(6);

ystyr “cynllun pensiwn personol” (“personal pension scheme”) yw cynllun pensiwn personol —

- (a) fel y'i diffinnir yn adran 1 o Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993; neu
  - (b) fel y'i diffinnir yn adran 1 o Ddeddf Cynlluniau Pensiwn (Gogledd Iwerddon) 1993(7);
- ystyr “darparwr” (“provider”) yw darparwr unrhyw wasanaethau a grybwyllir yn rheoliad 3(1) (a);

---

(2) 2000 p.14.  
 (3) 2002p.16  
 (4) 2002 p.21.  
 (5) O.S.2006/491 (W.60)  
 (6) O.S. 1987/1969  
 (7) 1993 p.48.

ystyr “dros y môr” (“abroad”) yw unrhyw le y tu allan i'r Deyrnas Unedig;

ystyr “dyddiad perthnasol” (“relevant date”) yw —

- (a) yn achos cais o dan reoliad 7, dyddiad y cais; a
- (b) yn achos cais o dan reoliad 10(2), y dyddiad y cafodd y ffi GIG neu'r treuliau teithio GIG eu talu;

ystyr “dyddiad y cais” (“date of the claim”) yw'r dyddiad y bydd cais a wneir o dan reoliad 7 neu 10 yn dod i law Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr “y Ddeddf” (“the Act”) yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr “elfen anabled” (“disability element”) yw elfen anabled y credyd treth gwaith fel y'i pennwyd yn adran 11(3) o Ddeddf Credydau Treth 2002;

ystyr “elfen anabled difrifol” (“severe disability element”) yw elfen anabled difrifol y credyd treth gwaith fel y'i pennwyd yn adran 11(6)(d) o Ddeddf Credydau Treth 2002 (y gyfradd uchaf);

mae i “enillion” yr ystyr a roddir i “earnings” yn rheoliadau 35 a 37 o'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm;

mae i “ffi GIG” (“NHS charge”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 4;

rhaidd i “gwarant credyd pensiwn” (“pension credit guarantee”) gael ei ddehongli yn unol ag adrannau 1 a 2 o Ddeddf Credyd Pensiwn y Wladwriaeth 2002;

mae i “gwasanaethau deintyddol sylfaenol perthnasol” yr ystyr a roddir i “relevant primary dental services” yn rheoliad 2(1) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006;

mae i “incwm perthnasol” yr ystyr a roddir i “relevant income” yn adran 7(2) o Ddeddf Credydau Treth 2002;

mae i “lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm” yr ystyr a roddir i “income-based jobseeker's allowance” gan adran 1(4) o Ddeddf Ceisio Gwaith 1995;

mae i “myfyriwr amser-llawn” yr ystyr a roddir i “full time student” yn rheoliad 61 o'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm;

mae i “pâr” yr ystyr a roddir i “couple” yn adran 137 o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992;

ystyr “partner” (“partner”) —

- (a) os yw'r ceisydd yn aelod o bâr, yw'r aelod arall o'r pâr hwnnw,
- (b) os yw'r ceisydd yn briod yn aml-gymar â dau neu fwy o aelodau o'i aelwyd, yw unrhyw aelod o'r fath;

mae i “person ifanc” yr ystyr a roddir i “young person” yn rheoliad 14 o'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm;

ystyr “person sengl” (“single person”) yw person nad oes ganddo bartner ac nad yw'n gyfrifol am blentyn neu berson ifanc, ac nad yw'n aelod o'r un aelwyd â phlentyn neu berson ifanc;

ystyr “plentyn” (“child”) yw person o dan 16 oed;

ystyr “plentyn neu berson ifanc dibynnol” (“dependent child or young person”) yw unrhyw blentyn neu berson ifanc sy'n cael ei drin fel pe bai'n gyfrifoldeb i'r ceisydd neu i bartner y ceisydd, os yw'r plentyn hwnnw neu'r person ifanc hwnnw'n aelod o aelwyd y ceisydd;

mae “porthladd” (“port”) yn cynnwys maes awyr, porthladd i fferri neu orsaf drenau ryngwladol ym Mhrydain Fawr y mae siwrnai ryngwladol yn dechrau oddi yno;

ystyr “proffesiynolyn gofal iechyd (“health care professional”) yw person sy'n aelod o broffesiwn sy'n cael ei reoleiddio gan gorff a grybwyllir yn adran 25(3) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002(8);

ystyr “Rheoliadau Credyd Pensiwn y Wladwriaeth” (“State Pension Credit Regulations”) yw Rheoliadau Credyd Pensiwn y Wladwriaeth 2002(9);

ystyr “Rheoliadau Cymhorthdal Incwm” (“the Income Support Regulations”) yw Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987(10);

ystyr “y Rheoliadau Ffioedd” (“the Charges Regulations”) yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Presgripsiynau am Ddim a Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2007(11);

ystyr “terfyn cyfalaf” (“capital limit”) —

- (a) yn achos person sy'n byw yn barhaol mewn cartref gofal neu mewn llety a ddarperir gan awdurdod lleol o dan adrannau 21 i 24 a 26 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948(12) yw'r swm a ragnodwyd mewn rheoliadau a wnaed o dan adran 22(5) o'r Ddeddf honno, a
- (b) yn achos unrhyw berson arall, y swm a ragnodwyd at ddibenion adran 134(1) o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992(13);

mae i “teulu” yr ystyr a roddir i “family” gan adran 137(1) o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992 fel y mae'n gymwys i gymhorthdal incwm, ac eithrio —

- (a) yn rheoliad 5(1)(ch), mewn perthynas â pherson sy'n cael lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm mae iddo yr ystyr a roddir yn adran 35 o Ddeddf Ceisio Gwaith 1995(14),
- (b) yn rheoliadau 5(1)(d) ac 8(2) mae iddo yr ystyr a ddyrennir gan reoliad 2(2) o Reoliadau Credydau Treth (Diffinio a Chyfrifo Incwm) 2002(15), ac
- (c) os oes cais wedi'i wneud am gymorth o dan Ran VI o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999(16), mae'n golygu y ceisydd lloches sydd wedi gwneud y cais hwnnw ac unrhyw ddibynnydd, fel y'i diffinnir yn adran 94 o'r Ddeddf honno, y mae wedi'i gynnwys yn y cais hwnnw, a dylai'r cyfeiriadau at “teulu” yn rheoliadau 5(2)(c) ac 8(1), (3) a (7) gael eu dehongli yn unol â hynny;

mae i “treuliau teithio GIG” (“NHS travelling expenses”) a “treuliau teithio tramor GIG” (“NHS foreign travelling expenses”) yr ystyron a roddir yn rheoliad 3;

ystyr “wythnos” (“week”) yw cyfnod o 7 diwrnod sy'n dechrau am ganol nos rhwng dydd Sadwrn a dydd Sul;

mae i “ymddiriedolaeth GIG” yr ystyr a roddir i “NHS trust” yn adran 18 o'r Ddeddf.

### Treuliau teithio GIG

3.—(1) Yn y Rheoliadau hyn ystyr “treuliau teithio GIG” (“NHS travelling expenses”) yw'r treuliau teithio y mae'n angenrheidiol i berson eu hysgwyddo —

- (a) i fod yn bresennol yn y canlynol —
  - (i) un o ysbytai'r gwasanaeth iechyd,

---

(8) 1995 p.49

(9) 2002 p.17

(10) O.S. 2002/1792

(11) O.S. 1987/1967

(12) O.S. 2007/121 (Cy.11). Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1.4.07.

(13) 1948 p.29.

(14) 1992 p.4. Y Rheoliadau perthnasol yw Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987 O.S. 1987/1967.

(15) 1995 p.18

(16) O.S. 2002/2006

- (ii) unrhyw sefydliad arall a reolir gan Ymddiriedolaeth GIG neu Fwrdd Iechyd Lleol, neu
- (iii) unrhyw le arall yn y Deyrnas Unedig,

at ddibenion darparu unrhyw wasanaethau (ac eithrio gwasanaethau meddygol personol neu ddeintyddol personol a ddarperir o dan Rannau 4 a 5 o'r Ddeddf) o dan ofal ymgynghorydd yn unol â Rhannau 1 a 2 o'r Ddeddf; a

- (b) i deithio i borthladd ym Mhrydain Fawr er mwyn teithio dros y môr i gael gwasanaethau a ddarperir yn unol â threfniadau a wnaed o dan adran 10 o'r Ddeddf a pharagraff 18 o Atodlen 3 iddi.

(2) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "treuliau teithio tramor GIG" ("NHS foreign travelling expenses") yw'r treuliau teithio y mae'n angenrheidiol i berson eu hysgwyddo wrth deithio dros y môr o borthladd ym Mhrydain Fawr i gael gwasanaethau yn unol â threfniadau a wnaed o dan adran 10 o'r Ddeddf a pharagraff 18 o Atodlen 3 iddi.

(3) Mae treuliau teithio GIG a threuliau teithio tramor GIG yn cynnwys treuliau teithio cydymaith mewn achos lle mae'r person y darperir gwasanaethau ar ei gyfer naill ai —

- (a) yn blentyn; neu
- (b) yn berson y mae ei anhwylder meddygol yn golygu bod arno angen cydymaith, ym marn meddyg sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaethau neu, os yw'n briodol, ym marn proffesiynolyn gofal iechyd arall sy'n ymwneud â felly.

(4) Rhaid i berson sy'n dymuno dibynnu ar hawl i gael treuliau teithio GIG —

- (a) gwneud cais am hawl o dan reoliad 7, oni bai ei fod yn berson nad yw'n ofynnol iddo wneud cais o'r fath yn rhinwedd rheoliad 5(1); a
- (b) gwneud cais am daliad treuliau teithio o dan reoliad 9.

(5) Mae swm unrhyw dreuliau teithio GIG y mae gan berson hawl i'w gael o dan y Rheoliadau hyn —

- (a) yn gorfod cael ei gyfrifo drwy gyfeirio at gost y teithio drwy ddefnyddio'r drafndiaeth rataf sy'n rhesymol o roi sylw i oed ac anhwylder meddygol y person ac unrhyw amgylchiadau perthnasol eraill; a
- (b) os teithir mewn car preifat, yn cael cynnwys lwfans milltiroedd a threuliau parcio car.

(6) Dim ond os yw'r corff gwasanaeth iechyd a wnaeth y trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau dros y môr yn cytuno ar y dull teithio a chost y teithio a'r angen neu'r diffyg angen cydymaith cyn i'r treuliau gael eu hysgwyddo y mae gan berson hawl i gael taliad treuliau teithio tramor GIG.

### **Ffioedd GIG y gellir peidio â'u codi**

4.—(1) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "ffi GIG" ("NHS charge") yw unrhyw ffi a fyddai fel arall yn daladwy —

- (a) yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 121(1) a (2) o'r Ddeddf, am gyflenwi cyffuriau, moddion, cyfarpar a gwasanaethau fferyllol;
- (b) yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 125 o'r Ddeddf mewn perthynas â ffioedd am wasanaethau deintyddol perthnasol.

(2) Rhaid i berson sy'n dymuno dibynnu ar hawl o dan y Rheoliadau hyn i beidio â thalu ffi GIG —

- (a) gwneud cais am hawl o dan reoliad 7 neu reoliad 10, oni bai ei fod yn berson nad yw'n ofynnol iddo wneud cais o'r fath yn rhinwedd rheoliad 5(1); a
- (b) darparu unrhyw ddatganiad neu dystiolaeth o hawl y gofynnir amdanynt o dan y Rheoliadau Ffioedd.

## RHAN 2

### HAWL I GAEL TALIAD AM DREULIAU TEITHIO GIG AC I BEIDIO â THALU FFIOEDD GIG

#### Hawl i beidio â thalu ffi o gwbl ac i gael taliad llawn

5.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae gan berson hawl, heb wneud cais o dan reoliad 7 (ceisiadau am hawl), i gael taliad llawn treuliau teithio GIG ac i beidio â thalu ffi GIG o gwbl os yw —

- (a) yn cael cymhorthdal incwm;
- (b) yn cael lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm;
- (c) yn cael credyd gwarant credyd pensiwn;
- (ch) yn aelod o'r un teulu â pherson sy'n cael cymhorthdal incwm, lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm neu gredyd gwarant credyd pensiwn; neu
- (d) yn aelod o deulu y mae un aelod ohono yn cael —
  - (i) credyd treth gwaith a chredyd treth plant,
  - (ii) credyd treth gwaith sy'n cynnwys elfen anabledd neu elfen anabledd difrifol, neu
  - (iii) credyd treth plant, ond nad yw'n gymwys i gael credyd treth gwaith,

ar yr amod y penderfynir adeg y dyfarniad nad yw incwm perthnasol yr aelod neu'r aelodau y rhoddir y credyd treth iddo neu iddynt o dan adran 14 o Ddeddf Credydau Treth 2002 yn fwy na £15,050.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae gan y personau canlynol hawl i gael taliad llawn treuliau teithio GIG ac i beidio â thalu ffi GIG o gwbl ond mae'n ofynnol iddynt wneud cais am daliad neu am beidio â thalu yn unol â rheoliad 7 (ceisiadau am hawl) —

- (a) person sy'n byw yn barhaol —
  - (i) mewn cartref gofal, neu
  - (ii) mewn llety a ddarperir gan awdurdod lleol o dan adrannau 21 i 24 a 26 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 (darparu llety),

ac sydd wedi bodloni'r awdurdod hwnnw nad yw'n gallu talu am y llety hwnnw yn ôl y gyfradd safonol, neu, yn ôl fel y digwydd, y gyfradd lawn;
- (b) ceisydd lloches y darperir cymorth ar ei gyfer o dan Ran VI o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999;
- (c) aelod o'r un teulu â cheisydd lloches a ddisgrifir yn is-baragraff (b);
- (ch) plentyn perthnasol o fewn ystyr adran 23A o Ddeddf Plant 1989(17) y mae awdurdod lleol cyfrifol yn darparu cymorth ar ei gyfer o dan adran 23B(8) o'r Ddeddf honno;
- (d) unrhyw berson arall sy'n bodloni Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rhan 4 nad yw ei adnoddau cyfalaf yn uwch na'r terfyn cyfalaf ac nad yw ei adnoddau incwm yn uwch na'i anghenion neu eu bod yn fwy na'i anghenion o hanner cant y cant neu lai o swm y ffi a bennwyd yn rheoliad 3(1)(b) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) 2000(18); ac

(dd) aelod o'r un teulu â pherson a ddisgrifir yn is-baragraff (d).

(3) Dim ond os yw'n berson a ddisgrifir ym mharagraff (1) neu (2) ar yr adeg —

---

(17) 1999 p.33

(18) 1989 p.41.

- (a) Pan y codir y ffi;
- (b) yr ysgwyddir y treuliau teithio GIG; neu
- (c) yn achos ffi am wasanaethau deintyddol perthnasol pan—
  - (i) y gwneir y trefniadau ar gyfer y driniaeth neu'r cwrs o driniaeth frys o dan y Ddeddf,
  - (ii) pan wneir y trefniadau ar gyfer cyflenwi dant gosod neu gyfarpar deintyddol arall o dan y Ddeddf heblaw fel rhan o wasanaethau deintyddol sylfaenol perthnasol, neu
  - (iii) y codir y ffi,y mae hawl person i gael taliad llawn treuliau teithio GIG neu i beidio â thalu ffi GIG o gwbl yn codi.

### **Hawl i beidio â thalu rhan o ffi ac i gael taliad rhannol**

6.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), mae gan berson hawl i gael taliad rhannol unrhyw dreuliau teithio GIG ac i beidio â thalu rhan o ffi GIG am wasanaethau deintyddol perthnasol ar yr amod ar yr adeg yr ysgwyddir y treuliau teithio neu y codir y ffi —

- (a) nad yw ei adnoddau cyfalaf yn uwch na'r terfyn cyfalaf; a
- (b) naill ai —
  - (i) bod ei adnoddau incwm yn uwch na'i anghenion o lai na thraean o'r ffi, neu, yn ôl fel y digwydd, o lai na'r treuliau teithio a ysgwyddir mewn unrhyw wythnos, neu
  - (ii) ei fod yn aelod o deulu'r person a ddisgrifir yn is-baragraff (b)(i),ond mae'n ofynnol iddo wneud cais am beidio â thalu neu am daliad yn unol â rheoliad 7 (ceisiadau am hawl).

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), y swm y mae gan berson hawl i'w gael o dan baragraff (1) yw —

- (a) yn achos ffi GIG am wasanaethau deintyddol perthnasol, y gwahaniaeth rhwng y ffi a thair gwaith y swm y mae ei adnoddau incwm yn uwch na'i anghenion; a
- (b) yn achos treuliau teithio y gellir eu hadennill, y gwahaniaeth rhwng swm y treuliau a ysgwyddwyd a'r swm y mae ei adnoddau incwm yn uwch na'i anghenion.

(3) Yn achos ffi GIG am wasanaethau deintyddol perthnasol, y ffi y gellir peidio â thalu rhan ohoni o dan y rheoliad hwn, ac y mae'n rhaid ei defnyddio at ddibenion y cyfrifiad y gofynnir amdano o dan baragraff (2)(a), yw'r ffi a godir —

- (a) am un cwrs o driniaeth neu gwrs o driniaeth frys, gan gynnwys unrhyw ffi a godir am ddant gosod neu gyfarpar deintyddol arall a gyflenwir yn y cwrs hwnnw o driniaeth; neu
- (b) am gyflenwi dant gosod neu gyfarpar deintyddol arall o dan y Ddeddf heblaw fel rhan o wasanaethau deintyddol sylfaenol perthnasol.

### **Ceisiadau am hawl**

7.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i berson sy'n dymuno gwneud cais am hawl o dan reoliad 5(2) (hawl i beidio â thalu ffi o gwbl ac i gael taliad llawn) neu reoliad 6(1) (hawl i beidio â thalu rhan o ffi ac i gael taliad rhannol) wneud cais i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar ffurflen sydd naill ai wedi'i darparu at y diben neu wedi'i chymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(2) Ar gais o dan baragraff (1), rhaid i'r ceisydd ddarparu unrhyw dystiolaeth a gwybodaeth y mae'n rhesymol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ofyn amdanynt a hynny o fewn unrhyw amser y mae'n rhesymol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ofyn amdano.

(3) Caniateir i gais gael ei wneud ar ran person arall os yw'r person hwnnw'n methu, oherwydd anallu meddyliol neu gorfforol, â gwneud y cais ei hun.

(4) Os na fydd ceisydd yn cydymffurfio â cheisiadau a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â'r dystiolaeth neu'r wybodaeth neu'r amseru a grybwyllir ym mharagraff (2), caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru hysbysu'r ceisydd na phenderfynir ar y cais a bod rhaid barnu bod y cais wedi'i gau.

### Hysbysiadau hawl

**8.—(1)** Os bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penderfynu, ar gais a wneir o dan reoliad 7 (ceisiadau am hawl), fod gan y ceisydd ac unrhyw aelod o deulu'r ceisydd hawl i beidio â thalu unrhyw ran o ffi GIG neu i gael unrhyw daliad mewn perthynas â threuliau teithio GIG, rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru roi hysbysiad hawl i'r ceisydd.

(2) Os oes gan berson hawl i beidio â thalu ffi GIG o gwbl ac i gael taliad llawn treuliau teithio GIG am ei fod yn aelod o deulu a ddisgrifir yn rheoliad 5(1)(e) (teuluoedd credyd treth), rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru roi hysbysiad hawl i'r teulu hwnnw ac mewn achos o'r fath bydd yr hysbysiad yn gymwys i holl aelodau'r teulu hwnnw.

(3) Mae hysbysiad hawl a roddir o dan baragraff (1) yn gymwys i holl aelodau teulu'r ceisydd a rhaid i'r hysbysiad hawl ddatgan —

- (a) a oes gan y personau hynny hawl i beidio â thalu ffi o gwbl ac i gael taliad llawn ynteu hawl i beidio â thalu rhan o ffi ac i gael taliad rhannol; a
- (b) yn achos peidio â thalu rhan o ffi neu gael taliad rhannol, swm unrhyw ffi GIG am wasanaethau deintyddol perthnasol neu dreuliau teithio GIG nad oes hawl i beidio â'i dalu neu i gael taliad amdano.

(4) Rhaid i hysbysiad hawl a roddir o dan baragraff (1) neu baragraff (2) ddatgan am ba gyfnod o amser y mae'n ddilys a'r dyddiadau y mae'r amser hwnnw'n dechrau ac yn diweddau.

(5) Mae hysbysiad hawl a roddir o dan baragraff (1) yn ddilys am 12 mis gan ddechrau ar ddyddiad y cais ac eithrio —

- (a) yn achos hysbysiad a roddir i fyfyrwr amser-llawn ym mlwyddyn olaf neu unig flwyddyn cwrs astudio, ei fod yn ddilys o ddyddiad y cais tan ddiwrnod olaf y cwrs hwnnw;
- (b) yn achos hysbysiad a roddir i blentyn perthnasol, ei fod yn ddilys am 12 mis neu tan 18fed pen-blwydd y plentyn, p'un bynnag yw'r olaf;
- (c) yn achos hysbysiad a roddir i berson a grybwyllir yn rheoliad 5(2)(b) (ceisydd lloches), ei fod yn ddilys am 6 mis gan ddechrau ar ddyddiad y cais;
- (ch) yn achos hysbysiad a roddir i berson a grybwyllir ym mharagraff (6), ei fod yn ddilys am y cyfnod o amser a bennir yn y paragraff hwnnw.

(6) Mae hysbysiad hawl a roddir o dan baragraff (1) yn ddilys am 5 mlynedd gan ddechrau ar ddyddiad y cais os yw'r ceisydd —

- (a) yn berson sengl heb fod yn llai na 65 oed; neu
- (b) yn un o bâr lle mae un partner heb fod yn llai na 60 oed ac un partner heb fod yn llai na 65 oed,

nad yw'n cael —

- (i) dim enillion;
- (ii) dim taliadau o gynllun pensiwn galwedigaethol;
- (iii) dim taliadau o gynllun pensiwn personol; a
- (iv) dim taliadau o gontract blwydd-dal.

(7) Nid yw paragraff (6) yn gymwys i berson y mae ganddo blentyn neu berson ifanc dibynnol yn aelod o'i aelwyd.



(8) Mae hysbysiad hawl a roddir o dan baragraff (2) yn ddilys o unrhyw ddyddiad ac am unrhyw gyfnod y penderfynir arnynt gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(9) Yn ddarostyngedig i baragraffau (10), (12) a (13), ni fydd unrhyw newid yn amgylchiadau ariannol neu amgylchiadau eraill ceisydd neu aelod unrhyw o deulu ceisydd, yn ystod cyfnod dilysrwydd hysbysiad hawl, yn effeithio ar ei ddilysrwydd mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw, neu yn achos peidio â thalu rhan o ffi neu daliad rhannol, ar y symiau y cyfeirir atynt ym mharagraff (3)(b).

(10) Rhaid i geisydd y rhoddir hysbysiad hawl iddo sy'n syrthio o dan baragraff (6) hysbysu Cynulliad Cenedlaethol Cymru am unrhyw newid yng nghyfansoddiad ei deulu neu ei aelwyd yn ystod cyfnod dilysrwydd yr hysbysiad hawl a chaiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru dynnu'r hysbysiad hawl yn ôl neu amrywio'r symiau a ddatganwyd ar yr hysbysiad hawl fel y cyfeirir atynt ym mharagraff (3)(b) os na fydd y ceisydd yn bodloni gofynion paragraffau (6) a (7) mwyach.

(11) Caiff ceisydd y rhoddir hysbysiad hawl i gael taliad rhannol treuliau teithio GIG neu i beidio â thalu rhan o ffi GIG am wasanaethau deintyddol perthnasol wneud cais pellach yn unol â rheoliad 7 ar unrhyw adeg yn ystod oes yr hysbysiad os yw'n credu y dylai'r symiau sydd wedi'u datgan ar yr hysbysiad hawl fel y cyfeirir atynt ym mharagraff 3(b) gael eu gostwng oherwydd newid yn ei amgylchiadau ariannol ef neu yn amgylchiadau ariannol unrhyw aelod o'i deulu.

(12) Rhaid i geisydd y rhoddir hysbysiad hawl iddo o dan y rheoliad hwn ei ddychwelyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn unrhyw achos lle gwelir wedyn fod ei gais wedi'i seilio ar osodiad ffug.

(13) Dim ond at ddibenion yr hawl i beidio â thalu ffioedd GIG ac i gael taliad treuliau teithio GIG yn unol â'r Rheoliadau hyn y mae hysbysiad hawl a roddir o dan y rheoliad hwn yn effeithiol.

## RHAN 3

### TALIADAU AC AD-DALIADAU

#### Talu treuliau teithio GIG

9.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) i (5), os oes gan berson hawl yn unol â rheoliad 5 neu 6 i gael taliad mewn perthynas â threuliau teithio GIG —

- (a) rhaid iddo wneud cais i'r darparwr; a
- (b) rhaid i'r darparwr gyfrifo'r gwir swm sy'n daladwy yn unol â'r Rheoliadau hyn a gwneud y taliad.

(2) Os darperir gwasanaethau yn unol â threfniadau a wnaed o dan adran 10 o'r Ddeddf a pharagraff 18 o Atodlen 3 iddi, caniateir i'r cais am daliad gael ei wneud i naill ai'r darparwr neu'r corff yn y gwasanaeth iechyd a wnaeth y trefniadau hynny, a chaniateir i'r cyfrifiad a'r taliad gael eu gwneud gan y naill neu'r llall.

(3) Mewn achos sy'n syrthio o fewn rheoliad 3(1)(b) (teithio i borthladd) rhaid i'r cais am daliad gael ei wneud i'r corff yn y gwasanaeth iechyd a wnaeth y trefniadau y cyfeirir atynt yn y ddarpariaeth honno, a rhaid i'r cyfrifiad a'r taliad gael eu gwneud gan y corff hwnnw.

(4) Rhaid i berson sy'n gwneud cais am daliad mewn perthynas â threuliau teithio GIG lofnodi datganiad o hawl a darparu unrhyw dystiolaeth o'i hawl ac o'i dreuliau teithio y gofynnir amdani gan y darparwr, neu, yn ôl fel y digwydd, gan y corff yn y gwasanaeth iechyd a wnaeth y trefniadau.

(5) Caniateir i dreuliau teithio GIG gael eu talu cyn i'r treuliau gael eu hysgwyddo.

### **Ceisiadau am ad-daliad**

**10.**—(1) Mae gan berson sydd â hawl o dan y Rheoliadau hyn i beidio â thalu ffi GIG o gwbl neu i beidio â thalu rhan o ffi GIG neu hawl i gael taliad llawn neu rannol am dreuliau teithio GIG ac sy'n talu ffi o'r fath neu dreuliau teithio o'r fath heb arfer ei hawl i beidio â thalu neu i gael taliad, hawl i gael ad-daliad am y swm hwnnw y byddai wedi peidio â'i dalu neu y byddai wedi'i dalu.

(2) Rhaid i berson sy'n dymuno arfer ei hawl i gael ad-daliad o dan baragraff (1) wneud cais i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar ffurflen sydd wedi'i darparu at y diben neu wedi'i chymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(3) Rhaid i gais o dan baragraff (2) gael ei wneud o fewn tri mis ar ôl y dyddiad y cafodd y ffi GIG ei thalu neu y cafodd y treuliau teithio GIG eu talu neu o fewn unrhyw gyfnod hirach y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei ganiatáu am reswm da.

(4) Mae paragraffau (2) i (4) o reoliad 7 (ceisiadau am hawl) yn gymwys i gais o dan y rheoliad hwn.

### **Ad-daliadau**

**11.**—(1) Os yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i fodloni bod gan geisydd hawl i gael unrhyw ad-daliad o dan reoliad 10 rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru —

- (a) yn achos ad-daliad sydd i'w wneud mewn perthynas â threuliau teithio GIG a ysgwyddwyd gan berson i fod yn bresennol mewn ysbyty neu unrhyw le arall a reolir gan ymddiriedolaeth GIG, roi hysbysiad ysgrifenedig o hawl y ceisydd i'r ymddiriedolaeth GIG; neu
- (b) mewn achos sy'n syrthio o fewn rheoliad 3(1)(b) (teithio i borthladd) roi hysbysiad ysgrifenedig o hawl y ceisydd i'r corff yn y gwasanaeth iechyd a wnaeth y trefniadau y cyfeirir atynt yn y ddarpariaeth honno; neu
- (c) mewn unrhyw achos arall, beri bod ad-daliad yn cael ei wneud i'r ceisydd mewn unrhyw fodd sydd ym marn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn briodol o dan amgylchiadau'r achos penodol.

(2) Os caiff ymddiriedolaeth GIG neu gorff arall yn y gwasanaeth iechyd hysbysiad fel y'i crybwyllir ym mharagraff (1), rhaid iddynt gyfrifo unrhyw swm sy'n daladwy mewn perthynas â threuliau teithio GIG yn unol â'r Rheoliadau hyn a gwneud unrhyw ad-daliad sy'n ddyledus i geisydd mewn perthynas â threuliau teithio GIG neu ffi GIG o'r fath.

(3) Rhaid i berson y mae ganddo hawl i gael ad-daliad mewn perthynas â threuliau teithio GIG lofnodi datganiad o hawl a darparu unrhyw dystiolaeth o'i hawl ac o'i dreuliau teithio y gofynnir amdani gan y corff yn y gwasanaeth iechyd sy'n gwneud yr ad-daliad.

### **Ad-dalu taliadau a wnaed mewn perthynas â threuliau teithio GIG**

**12.** Os bydd darparwr yn gwneud taliad o dan reoliad 9(1) neu (2) neu ad-daliad o dan reoliad 11(a) mewn perthynas â threuliau teithio GIG a ysgwyddwyd gan berson sy'n cael gwasanaethau gan y darparwr, caiff swm y taliad neu'r ad-daliad o dan sylw ei ad-dalu i'r darparwr gan y corff yn y gwasanaeth iechyd y darperir y gwasanaethau hynny ar ei ran.

### **Talu ac ad-dalu treuliau teithio tramor GIG**

**13.**—(1) Rhaid i berson sy'n dymuno gwneud cais am hawl i gael taliad neu ad-daliad treuliau teithio tramor GIG wneud cais ysgrifenedig i'r corff yn y gwasanaeth iechyd a drefnodd y gwasanaethau y cyfeirir atynt yn rheoliad 3(2) o fewn tri mis ar ôl i'r treuliau gael eu hysgwyddo neu unrhyw gyfnod pellach y bydd y corff hwnnw'n ei ganiatáu am reswm da.

(2) Mae paragraffau (2) i (4) o reoliad 7 (ceisiadau am hawl) yn gymwys i gais (boed am daliad nteu am ad-daliad) a wneir o dan y rheoliad hwn fel pe bai'r cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn y paragraffau hynny yn gyfeiriadau at y corff yn y gwasanaeth iechyd a drefnodd y gwasanaethau y cyfeirir atynt yn rheoliad 3(2).

## RHAN 4

### CYFRIFO ADNODDAU AC ANGHENION

#### Cyffredinol

**14.**—(1) Os oes angen i adnoddau neu anghenion person gael eu cyfrifo at ddibenion y Rheoliadau hyn, rhaid iddynt gael eu cyfrifo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â darpariaethau'r Rhan hon ac Atodlen 1.

(2) Rhaid i adnoddau ac anghenion person gael eu cyfrifo —

- (a) yn achos cais a wneir o dan reoliad 7 (ceisiadau am hawl) drwy gyfeirio at ei adnoddau a'i ofynion ar ddyddiad y cais; neu
- (b) yn achos cais am ad-daliad a wneir o dan reoliad 10(2) (ceisiadau am ad-daliadau) drwy gyfeirio at ei adnoddau a'i ofynion ar y dyddiad y talwyd y ffi GIG neu'r treuliau teithio GIG.

(3) Os yw'r ceisydd yn aelod o deulu, rhaid i adnoddau ac anghenion aelodau eraill ei deulu gael eu cyfrifo yn yr un modd ag adnoddau ac anghenion y ceisydd a rhaid eu cymryd i ystyriaeth fel pe baent yn adnoddau ac anghenion i'r ceisydd, ac yn y Rhan hon ac yn y darpariaethau y cyfeirir atynt yn Atodlen 1, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae unrhyw gyfeiriad at y ceisydd yn cynnwys aelodau eraill ei deulu.

(4) Mewn achos lle mae enillion unrhyw berson i gael eu cyfrifo a bod anghydfod masnach wedi effeithio ar yr enillion hynny, yr enillion sydd i'w cymryd i ystyriaeth yw'r enillion y byddai'r person hwnnw wedi'u cael pe na bai anghydfod masnach wedi bod.

(5) Wrth gymhwyso'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm fel y'u crybwyllir yn rheoliad 15 a rheoliad 16, rhaid i ddarpariaethau'r Rheoliadau hynny gael eu cymhwyso fel pe bai —

- (a) cyfeiriadau at gymhorthdal incwm yn gyfeiriadau at beidio â thalu ffioedd GIG a thalu treuliau teithio GIG,
- (b) cyfeiriadau mewn unrhyw rai o'r darpariaethau hynny at unrhyw rai eraill o'r darpariaethau hynny yn gyfeiriadau at y ddarpariaeth arall honno fel y'i haddaswyd yn unol â rheoliad 15(4) neu, yn ôl fel y digwydd, â rheoliad 16(4); ac
- (c) Rheoliadau Credyd Pensiwn y Wladwriaeth (Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol ac Amrywiol) 2002(19) heb eu gwneud.

#### Cyfrifo adnoddau

**15.**—(1) Rhaid i adnoddau ceisydd gael eu cyfrifo yn nhermau incwm a chyfalaf.

(2) Rhaid i incwm gael ei gyfrifo ar sail wythnosol yn unol â'r dull ar gyfer cyfrifo neu amcangyfrif incwm a ragnodwyd gan ddarpariaethau'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm, yn ddarostyngedig i'r addasiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (4).

(3) Rhaid i gyfalaf gael ei gyfrifo yn unol â'r dull ar gyfer cyfrifo neu amcangyfrif cyfalaf a ragnodwyd gan ddarpariaethau Pennod VI yn Rhan V o'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm ac Atodlen 10 iddynt, yn ddarostyngedig i'r addasiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (4).

(4) Mae darpariaethau'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm yn gymwys a rhaid i'r darpariaethau hynny a bennir yng ngholofn 1 o Dabl A yn Atodlen 1 gael eu cymhwyso yn unol â'r addasiadau a bennir yn y cofnodion cyfatebol yng ngholofn 2.

### Cyfrifo anghenion

**16.**—(1) Rhaid cyfrifo mai'r swm y cyfeirir ato yn is-baragraff (a) yw anghenion ceisydd, llai'r swm, lle bo'n gymwys, y cyfeirir ato yn is-baragraff (b) isod, fel a ganlyn —

(a) y swm sy'n cyfateb i gyfanswm —

(i) y swm cymwysadwy wythnosol a fyddai'n gymwys i'r ceisydd, gan gynnwys y swm hwnnw mewn perthynas ag unrhyw aelod arall o'i deulu, mewn cysylltiad â chais am gymhorthdal incwm fel y'i pennir gan y Rheoliadau Cymhorthdal Incwm, ond yn ddarostyngedig i'r addasiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (4), a

(ii) yn ddarostyngedig i baragraff (2), swm wythnosol unrhyw dreth gyngor y mae'r ceisydd neu ei bartner yn atebol i'w dalu o dan Ran 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992<sup>(20)</sup>;

(b) y swm sy'n cyfateb i gyfanswm swm wythnosol unrhyw fudd-dal tai a swm wythnosol unrhyw fudd-dal treth gyngor y mae gan y ceisydd neu unrhyw aelod o'i deulu hawl i'w gael o dan ddarpariaethau Rhan VII o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), os oes ceisydd yn atebol ar y cyd ac yn unigol i dalu'r dreth gyngor mewn perthynas ag annedd y mae'n preswyllo ynddi gydag un neu fwy o bersonau, rhwymedigaeth y ceisydd mewn perthynas â'r dreth honno at ddibenion y Rheoliadau hyn fydd swm y dreth honno wedi'i rhannu â nifer y personau sy'n yn atebol ar y cyd ac yn unigol i dalu'r dreth honno.

(3) Nid yw paragraff (2) yn gymwys os yw ceisydd yn atebol ar y cyd ac yn unigol i dalu'r dreth gyngor mewn perthynas ag annedd gyda'i bartner yn unig.

(4) Mae darpariaethau'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm yn gymwys a rhaid i'r darpariaethau hynny a bennir yng ngholofn 1 o Dabl B yn Atodlen 1 i'w cymhwyso yn unol â'r addasiadau a bennir yn y cofnodion cyfatebol yng ngholofn 2.

## RHAN 5

### TROSIANNOL A DIRYMU

#### Darpariaethau trosiannol

**17.**—(1) Rhaid i unrhyw gais a wnaed o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) 1988<sup>(21)</sup> sydd heb ei benderfynu cyn 1 Ebrill 2007 gael ei drin fel pe bai'n gais o dan y Rheoliadau hyn a rhaid penderfynu arno yn unol â hynny.

(2) Mae hysbysiad hawl i beidio â thalu ffi GIG neu i gael taliad treuliau teithio GIG sydd wedi'i roi o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) 1988 yn dal yn ddilys nes iddo ddod i ben yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau hynny.

---

<sup>(20)</sup> O.S.2002/3019

<sup>(21)</sup> 1992 p.14.

## **Dirymu**

**18.** Mae'r Rheoliadau a restrir yng nghlofn 1 o Atodlen 2 wedi'u dirymu i'r graddau a ddangosir yng nghlofn 2.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(22)

27 Mawrth 2007

*D. Elis-Thomas*  
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

*Statws* This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

ATODLEN 1

Rheoliadau 14, 15 ac 16

## ADDASU RHEOLIADAU CYMHORTHDAL INCWM (CYFFREDINOL) 1987

## TABLE A

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
Rheoliad 23	Ym mharagraff (1) yn lle “section 22(5) of the Act” rhodder “regulation 14(3) of the National Health Service (Travelling Expenses and Remission of Charges (Wales) Regulations 2007”.
Rheoliad 25	Yn lle'r cyfan o reoliad 25 (liable relative payments) rhodder— <p>“25.—(1) Where a claimant’s income consists of any payments made by a person, whether under a court order or not, for the maintenance of himself or herself or any member of the claimant’s family, and those payments are made or due to be made at regular intervals, the claimant’s normal weekly income from those payments must be determined—</p> <p>(a) as if before the relevant date those payments are made at regular intervals and in regular amounts, by reference to the normal weekly amount;</p> <p>(b) if they are not so made, by reference to the average amount of such payments received in the 13 weeks immediately preceding the week which includes the relevant date.</p> <p>(2) Any maintenance payment other than one to which paragraph (1) of this regulation applies must be treated as capital.”.</p>
Rheoliad 25A	Hepgorer y rheoliad hwn.
Rheoliad 28	Ym mharagraff (1) hepgorer y geiriau o “For the purposes” hyd at “income support”.
	Ym mharagraff (1)(a) yn lle “the weekly amount of his income” rhodder “the normal weekly amount of his or her income at the relevant date”.
Rheoliad 29	Hepgorer y rheoliad hwn.

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
Rheoliad 30	<p>Ym mharagraff (1) hepgorer y geiriau “Except where paragraph (2) applies”. Ym mharagraff (1)(a) ar y dechrau mewnosoder y geiriau “except where sub-paragraph (b) or (c) applies,”.</p> <p>Ym mharagraff (1)(b) ar y dechrau mewnosoder y geiriau “except where sub-paragraph (c) applies,”.</p> <p>Ar ôl paragraff (1)(b) mewnosoder y gair “or” a'r is-baragraff canlynol —</p> <p>“(c) where in respect of the employment the claimant provides a profit and loss account (and, where appropriate, a trading account or a balance sheet, or both), and the profit and loss account is in respect of a period of at least 6 months but not exceeding 15 months and that period ends within the 12 months preceding the relevant date.”.</p> <p>After paragraph (1) insert the following new paragraph—</p> <p>“(1A) In paragraph (1)(c)—</p> <p>(a) “balance sheet” means a statement of the financial position of the employment disclosing its assets, liabilities and capital at the end of the period in question;</p> <p>(b) “profit and loss account” means a financial statement showing the net profit or loss of the employment for the period in question; and</p> <p>(c) “trading account” means a financial statement showing the revenue from sales, the cost of those sales and the gross profit arising during the period in question.”.</p> <p>Hepgorer paragraff (2).</p>
Rheoliad 31	Hepgorer y rheoliad hwn.
Rheoliad 32	Ym mharagraff (1) yn lle “regulation 29” rhodder “regulation 28” ac yn lle “subject to paragraphs (2) to (7)” rhodder “subject to paragraph (6)”.

**Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
